

Annwyl Gydweithiwr

Rydym wedi bod yn gweithredu mewn cyfnod digynsail ers ychydig fisoedd bellach. Hoffwn ddiolch yn bersonol i fusnesau am eu hamynedd ac am eu cydweithrediad yn ystod y pandemig. Rwy'n sylweddoli cymaint o anawsterau y mae'r cyfyngiadau wedi'u hachosi ac yn parhau i'w hachosi i fusnesau wrth inni weithredu i achub bywydau.

Mae'n ddealladwy mai argyfwng Covid-19 a'i effeithiau fu'r prif ffocws i bob un ohonom yn ystod y rhan fwyaf o 2020, a bydd yn parhau i fod gyda ni am beth amser i ddod. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn galw ar Lywodraeth y DU i estyn cyfnod pontio'r UE gan y byddai hynny'n helpu busnesau yn ystod yr argyfwng hwn ac yn arwain at newid mwy trefnus. Ond gwrthodwyd ein ceisiadau. Felly, gan gydnabod mor anodd y bydd hi i fusnesau hyd at ddiwedd y cyfnod pontio, penderfynais ysgrifennu gyda'r nod o helpu busnesau nad ydynt wedi paratoi'n llwyr eto ar gyfer y newidiadau a fydd yn digwydd ac yn effeithio arny'n nhw o 1 Ionawr 2021.

O 1 Ionawr 2021, bydd y DU wedi gadael Marchnad Sengl yr UE felly ni fydd gan fusnesau yma fynediad mwyach i'r fasnach ddi-rwystr mewn nwyddau neu wasanaethau gydag aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd hyn yn wir p'un a yw'r DU yn cael cytundeb masnach rydd gyda'r UE neu'n gadael drwy ganlyniad nas negodwyd.

Deallaf fod yr ansicrwydd parhaus yn gwneud y paratodau angenrheidiol ar gyfer newid yn anodd, ond gwyddom y bydd rhai pethau'n wahanol ac y gellir cymryd rhai camau yn awr i helpu i baratoi.

Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu [traciwr](#) y gallwch gael rhestr bersonol o gamau gweithredu ohono. Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau drwy gofrestru ar gyfer [diweddariadau e-bost Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi](#) a fydd yn eich rhybuddio wrth i bethau newid.

Porth Pontio UE Busnes Cymru

Mae [Porth Pontio Busnes Cymru yr UE](#) yn ffynhonnell ganolog o gyngor ac arweiniad i fusnesau sy'n paratoi ar gyfer pontio Ewropeaidd ac mae'n cynnwys dolenni i Ymgyrch Gwybodaeth i'r Cyhoedd Llywodraeth y DU a aeth yn fyw ar 13 Gorffennaf 2020. Byddwn yn defnyddio ein gwefan Busnes Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y datblygiadau.

Mewnforion, Allforion a Thollau

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU [lythyr](#) at bob busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW sy'n masnachu gyda'r UE sy'n rhoi crynodeb o'r camau y bydd angen i chi eu cymryd. Mae'r llythyr yn esbonio'r hyn y mae angen i fasnachwyr ei wneud i baratoi ar gyfer prosesau newydd i symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a'r UE o 1 Ionawr 2021, gan gynnwys:

- Sicrhau bod rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd y DU (EORI) yn cael ei drefnu.
- Penderfynu sut i wneud datganiadau tollau.
- Gwirio a yw nwyddau a fewnforiwyd yn gymwys i gael rheolaethau mewnfurio fesul cam.

Ni fydd y camau hyn yn newid beth bynnag fo canlyniad trafodaethau Llywodraeth y DU â'r UE.

Data

Effeithir ar fusnesau'r DU ble byddant yn:

- Derbyn data personol gan sefydliadau dramor, gan gynnwys yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n cynnwys yr UE.
- Gweithredu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd

Mae gan yr UE fecanwaith sefydledig, yn seiliedig ar benderfyniadau digonolrwydd, i ganiatáu trosglwyddo data personol (yn amodol ar gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) heb gyfyngiadau i wledydd y tu allan i'r UE. Mae'r UE wedi ymrwmo yn y Datganiad Gwleidyddol i'r Comisiwn Ewropeaidd i ddechrau ei asesiad digonolrwydd o'r DU cyn gynted â phosibl ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, gan geisio mabwysiadu penderfyniad digonolrwydd yn ystod y cyfnod pontio os bodlonir yr amodau perthnasol.

Gan ei bod yn ansicr ar hyn o bryd a fydd yr UE yn gwneud penderfyniad digonolrwydd mewn perthynas â'r DU cyn diwedd y cyfnod pontio, dylech weithredu'n gyflym os ydych am sicrhau y gallwch barhau i dderbyn data personol o wledydd yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu [canllawiau manylach](#) ar ba gamau y gallai fod angen eu cymryd.

Pobl – Gwladolion yr UE, Mudo a Symudedd staff

Os bydd unrhyw aelod o'ch staff neu eu teulu yn dod o'r UE, y Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein, bydd angen iddynt [wirio](#) a oes angen iddynt wneud cais i'r cynllun preswyllo'n sefydlog i ddinasyddion yr UE.

Ffiniau

Ar 12 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd [rheolau newydd ar y ffin](#) ar fewnforion o'r UE i Brydain Fawr yn cael eu cyflwyno fesul cam:

- O fis Ionawr 2021: Bydd angen i fasnachwyr sy'n mewnfurio nwyddau safonol, sy'n cwmpasu popeth o ddillad i electroneg, baratoi ar gyfer gofynion sylfaenol y tollau, megis cadw digon o gofnodion o nwyddau a fewnforiwyd, a bydd ganddynt hyd at chwe mis i gwblhau datganiadau'r tollau. Er y bydd angen talu tariffau ar yr holl fewnforion, gellir gohirio taliadau hyd nes y bydd datganiad tollau wedi'i wneud. Bydd archwiliadau ar nwyddau sy'n cael eu rheoli fel alcohol a thybaco. Bydd angen i fusnesau hefyd ystyried sut y maent yn rhoi cyfrif am TAW ar nwyddau a

fewnforiwyd. Bydd gwiriadau ffisegol hefyd yn y gyrchfan neu safleoedd cymeradwy eraill ar bob anifail a phlanhigyn byw risg uchel.

- O fis Ebrill 2021: Bydd angen cyn-hysbysu pob cynnyrch sy'n tarddu o anifeiliaid – er enghraifft cig, bwyd anifeiliaid anwes, mêl, llaeth neu gynhyrchion wyau – a'r holl blanhigion a chynhyrchion planhigion a reoleiddir hefyd a'r dogfennau iechyd perthnasol.
- O fis Gorffennaf 2021: Bydd yn rhaid i fasnachwyr sy'n symud nwyddau wneud datganiadau ar adeg mewnfario a thalu tariffau perthnasol. Bydd angen datganiadau diogelwch llawn, ac ar gyfer nwyddau i sicrhau iechyd pobl, planhigion ac anifeiliaid, bydd cynnydd mewn archwiliadau ffisegol a chymryd samplau: bydd archwiliadau ar gyfer anifeiliaid, planhigion a'u cynnyrch yn cael eu cynnal yn awr mewn safleoedd rheoli ffiniau ym Mhrydain Fawr.

Os ydych yn ymwneud â masnachu â'r UE, bydd yn bwysig ystyried sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar eich busnes.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i helpu busnesau drwy ddiwedd cyfnod pontio'r UE. Yn ddiweddar, rydym wedi lansio trydydd cam ein Cronfa Cadernid Economaidd sy'n cynnwys cynllun Grant Datblygu Busnes. Gallwch ddefnyddio'r [gwiriwr cymhwysedd](#) i ganfod a allai'r cynllun grant hwn eich cynorthwyo wrth i chi weithio i ddatblygu eich busnes yn y dyfodol.

Yn gywir

Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru